

Cydlynnydd digwyddiadau a Chymorth

Mae Cymru Masnach Deg yn chwilio am gydlynnydd brwdfrydig a threfnus, sydd yn gallu defnyddio ei sgiliau i gynllunio a chefnogi digwyddiadau, i gefnogi cymunedau ar lawr gwlad yng Nghymru, ac i ddatblygu dulliau cyfathrebu effeithiol.

Byddai'r rôl hon yn addas i chwaraewr tîm dibynadwy ac amryddawn, sydd yn ymrwymedig i ethos Cymru Masnach Deg, sy'n mwynhau amrywiaeth yn eu gwaith, ac sy'n gallu blaenoriaethu a threfnu eu llwyth gwaith yn effeithiol. Os ydych yn frwd dros gyfiawnder a chydaddoldeb byd-eang, ac eisiau annog pobl i ymgyrchu dros newid ac i fynd ymhellach dros Fasnach Deg, yna efallai mai hon ydy'r swydd i chi.

Cymru Masnach Deg yw'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Masnach Deg yng Nghymru, ac mae'n gweithio i gefnogi, tyfu a hyrwyddo'r mudiad Masnach Deg yng Nghymru, sef cenedl Masnach Deg gyntaf y byd. Ein gweledigaeth yw gweld byd cyfartal, sy'n masnachu'n deg. Dewch i ymuno â sefydliad cyfeillgar, Masnach Deg, a helpu i dyfu Cenedl Masnach Deg gyntaf y byd.

Mae Cymru Masnach Deg yn gwmni sefydledig, cyfyngedig drwy warant gyda statws dim elw. Rydym yn gweithio fel rhan o bartneriaeth Hub Cymru Africa sy'n cynnwys; Cymru Masnach Deg, Panel Ymgyngharol Is-Sahara, Rhwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru o Blaid Affrica, a Chanolfan Materion Rhyngwladol Cymru (WCIA). Rydym wedi ein lleoli yn y Deml Heddwch yng Nghaerdydd. Mae Hub Cymru Africa yn cael ei ariannu ar hyn o bryd gan raglen Cymru o Blaid Affrica Llywodraeth Cymru. Bydd deiliad y swydd yn cydweithio â Hub Cymru Africa i sicrhau bod y sector mor effeithiol â phosibl.

Manylion

Yn adrodd i:	Cydlynnydd Cenedlaethol, Cymru Masnach Deg
Tymor:	9 mis
Cyflog:	NJC band 16, £23k (£13,700- 25 awr yr wythnos, 9 mis)
Lleoliad:	Y brif swyddfa yng Nghaerdydd, er y bydd lleoliadau eraill yn cael eu hystyried.
Oriau:	25 awr yr wythnos - 0.7 pro rata
Pensiwn:	Cyfraniad y Cyflogwr o 5% o'r cyflog gros o dan y cynllun NEST, yn amodol ar gyfraniad y cyflogai o 5%
Gwyliau blynyddol:	25 diwrnod pro rata/ ac eithrio gwyliau'r banc
Gweithio'n hyblyg:	Bydd yr holl geisiadau i weithio'n hyblyg yn cael eu hystyried

Pwrpas cyffredinol y swydd

Prif bwrpas y swydd hon ydy:

- cefnogi a threfnu digwyddiadau, sesiynau hyfforddi a chyfarfodydd i gryfhau ac ysbrydoli gweithredu Masnach Deg yng Nghymru;
- darparu cymorth ac adnoddau parhaus i'r rhwydwaith o ymgyrchwyr llawr gwlad i ymgorffori Masnach Deg ymhellach yn eu cymunedau;
- creu, cynllunio a gweithredu dulliau cyfathrebu i ennyn diddordeb cynulleidfaoedd newydd, a thyfu'r mudiad Masnach Deg yng Nghymru.

Disgrifiad o'r Swydd

Digwyddiadau a chyfathrebu

- Cynllunio, cydlynu a chynnal digwyddiadau a hyfforddiant, yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ôl y gofyn, yn unol ag amcanion strategol Cymru Masnach Deg
- Darparu cymorth logistaidd i Gynhadledd Rhyngwladol Trefi Masnach Deg 2019
- Creu a gweithredu dulliau cyfathrebu effeithiol ar draws holl sianelau Cymru Masnach Deg (gwefan, cylchlythyrau, cyfryngau cymdeithasol), ar y cyd â staff Hub Cymru Africa/Cymru Masnach Deg.

Cydlynu a chefnogi

- Cysylltu â chydweithwyr yn Hub Cymru Africa i ddarganfod, hyfforddi a chefnogi gwirfoddolwyr
- Trefnu i greu a dosbarthu amrywiaeth o adnoddau dwyieithog ar gyfer y mudiad Masnach Deg
- Cefnogi a chysylltu â grwpiau Masnach Deg a'r gymuned Masnach Deg ehangach i wneud cais am grantiau bach, gweithredu prosiectau ac ymgysylltu â gwaith ehangach Cymru Masnach Deg
- Cymryd rhan mewn cyfarfodydd Hub Cymru Africa a Cymru Masnach Deg
- Cefnogaeth weinyddol barhaus sy'n cynnwys diweddarau cronfeydd data perthnasol, sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth berthnasol (e.e. GDPR), rheoli mewnflychau a gohebiaeth, prosesu taliadau, rheoli dyddiaduron, cymryd cofnodion
- Cefnogi'r Cydlynnydd Cenedlaethol i sicrhau bod targedau Cymru Masnach Deg yn cael eu cyflawni

Cyfrifoldebau Trawstorri (sy'n cael eu rhannu gyda holl staff Hub Cymru Africa)

- a) Sicrhau bod yr holl waith yn cael ei gynllunio a'i ddarparu fel rhan o'r Strategaeth Bartneriaeth.
- b) Cyfrannu mewn ffordd deg a chymesur i weithgareddau Partneriaeth a rennir, sy'n cynnwys digwyddiadau mawr, cyfathrebu a gwaith allgymorth.
- c) Sicrhau lefel dda o gyswllt gyda gwaith partneriaid eraill: Panel Cyngori Is-Sahara, Rhwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru o Blaid Affrica, Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru.
- ch) Gweithio gyda'r Swyddog Diaspora a Chynhwysiant i sicrhau bod grwpiau ar y cyrion yn gallu cael gafael ar gymorth a hyfforddiant.
- d) Adrodd ar gynnydd i'ch rheolwr llinell ac, os gofynnir amdano gan y rheolwr, yn uniongyrchol i Fwrdd y Bartneriaeth neu Lywodraeth Cymru.
- dd) Recriwtio, rheoli ac/neu gefnogi gwirfoddolwyr yn ôl yr angen i gyflawni eich gwaith.
- e) Sicrhau bod y rhaglen yn cael ei chyflwyno'n ddwyieithog, a mynd ati'n rhagweithiol i gynyddu cyfranogiad siaradwyr Cymraeg.
- f) Cyfrannu'r holl waith Monitro, Gwerthuso a Dysgu perthnasol sydd ei angen.
- ff) Sicrhau bod yr arian yn cael ei wario at ddibenion cymeradwy'r rhaglen, a bod yr holl drafodion ariannol yn cael eu cefnogi gyda gwaith papur ariannol.
- g) Ymgymryd ag ambell ddyletswydd berthnasol arall fel y'u dirprwyir gan eich rheolwr llinell.

Manyleb perSon

Hanfodol	Dymunol
<ul style="list-style-type: none"> - Deall dwyieithrwydd a'r iaith Gymraeg 	<ul style="list-style-type: none"> - Y gallu i siarad Cymraeg – dymunol iawn
Cymryd rhan mewn cynllunio cynadleddau a digwyddiadau	
<ul style="list-style-type: none"> - Gwybodaeth am brosesau cynllunio digwyddiadau - Wedi cefnogi'r gwaith o gynllunio a chymryd rhan mewn digwyddiad gydag o leiaf 100 o gynrychiolwyr - Dangos profiad o gynllunio, cydlynu a chynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau llai - Y gallu i ddysgu o ddigwyddiadau blaenorol 	<ul style="list-style-type: none"> - Creadigrwydd mewn syniadau a chynllunio digwyddiadau - Y gallu i adnabod anghenion a bylchau - Wedi llwyddo i gefnogi fisâu ar gyfer siaradwyr/dirprwyon sy'n ymweld - Gwybodaeth am yr opsiynau o ran lleoliadau ar draws Cymru - Wedi'i hyfforddi mewn Cymorth Cyntaf, neu yn barod i wneud hynny
Grwpiau cymunedol	
<ul style="list-style-type: none"> - Wedi gweithio/gwirfoddoli gyda grwpiau cymunedol am o leiaf 6 mis, neu wedi bod yn aelod ohonynt. - Wedi datblygu dealltwriaeth o achosion ac anghenion grwpiau cymunedol - Dealltwriaeth o gymhellion ac anghenion gwirfoddolwyr - Y gallu i feithrin perthnasoedd gwaith da gyda gwahanol grwpiau 	<ul style="list-style-type: none"> - Gwybodaeth am ddaearyddiaeth Cymru-siroedd/trefi/rhwydweithiau trafndiaeth gyhoeddus mawr - Gwybodaeth gadarn am faterion Masnach Deg a chyfiawnder masnachu - Sgiliau hwyluso, cyflwyno a hyfforddi
Cyfathrebu ac adnoddau	
<ul style="list-style-type: none"> - Sgiliau cyfathrebu (llafar ac ysgrifenedig) rhagorol - Dealltwriaeth o wahanol arddulliau a thonau ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd - Y gallu i ddysgu am blatfformau a thueddiadau newydd yn gyflym - Deall egwyddorion brandio da 	<ul style="list-style-type: none"> - Wedi defnyddio gwahanol blatfformau cyfathrebu megis gwe-ysgrifennu, e-gylchlythyrau neu amserlennu - Wedi rheoli, cynllunio a chreu cynnwys ar gyfer tudalennau cyfryngau cymdeithasol grŵp neu fudiad - Profiad o greu a chomisiynu adnoddau dwyieithog - Wedi ysgrifennu a chyhoeddi copi creadigol ar gyfer platfformau digidol
Gweinyddu	

<ul style="list-style-type: none"> - Y gallu i reoli a blaenoriaethu eich llwyth gwaith eich hun yn effeithiol - Sgiliau trefnu a gweinyddu cryf - Sgiliau TG cryf, gyda phrofiad o amryfal blatfformau/rhaglenni - Deall prosesau effeithiol - Natur hyderus, gynnes a chyfeillgar - Y gallu i ddefnyddio menter, gweithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm bach 	<ul style="list-style-type: none"> - Wedi gweithio/gwirfoddoli o'r blaen mewn rôl weinyddol - Yn hyderus wrth awgrymu a gweithredu gwelliannau i brosesau gweinyddol - Profiad o ddefnyddio G-suite - Dealltwriaeth o ofynion GDPR - Profiad o weithio mewn sefydliad sydd â chyfyngiadau ariannol tynn
<ul style="list-style-type: none"> - Y gallu i deithio rhywfaint ac aros dros nos 	<ul style="list-style-type: none"> - Trwydded yrru